



Gair tymhorol gan Delwyn

Yr Hydref

“Pan fo’r hydref fel gefail - o wreichion,
Mor wych yw ei grinddail;
Ac er gwywo o’r gwiail,
Hardded yw pydredd y dail.” (Alan Llwyd)

Ie, yr Hydref, tymor y dail yn syrthio, y dail a’u lliwie bendigedig. “Deireadh Fómhair” yw’r geiriau am fis Hydref yn y Wyddeleg, ac ystyr “Deireadh Fómhair” yw - “diwedd yr Hydref.” Pam? Wel, yn ôl yr hen galendr Geltaidd roedd Tymor yr Hydref yn cynnwys misoedd Awst, Medi ac ... ie, yr Hydref. Felly, mis Hydref oedd *diwedd* yr Hydref, nid *dechrau*’r Hydref ! A ma’ hwnna wedyn yn gwneud synnwyr o’r ffaith ein bod ni’r Cymry’n galw’r mis cyn mis Awst yn Gorffennaf, sef - Gorffen Haf !

Tymor y Cynhaeaf oedd enw’r tymor yn y canol oesoedd, ond wrth i fwy a mwy o bobl symud i’r trefi i fyw fe gollwyd y cysylltiad uniongyrchol â’r tir, a disodlwyd yr hen enw gan yr enw newydd -yr Hydref.

Yn Lloegr wrth sôn am y tymor ro’n nhw’n sôn am “the fall of the leaf”, ac fe gysylltwyd hynny gyda “the fall of the year”, ac wrth i bererinion oes y Tuduriaid groesi i’r byd newydd yn yr Amerig fe aeth eu hiaith gyda nhw, ac enw’r Americanwyr ar y tymor hyd heddi’ yw “The Fall.”

Ond os yw’r tymor yn cael ei gysylltu â chwmp y dail, mae hefyd yn cael ei gysylltu ag Iselder. Ma’ gwres yr Haf a’r dyddie hirfelyn tesog wedi mynd, ac ma’r Gaeaf ar y gorwel, gyda’i dywyllwch a’i oerni. Mae’n dymor sy’n gweld cynnydd mewn problemau iechyd meddwl ac unigrwydd. Fe soniodd Gethin Rhys am Ddiwrnod Digartrefedd yn ei oedfa ragorol y Sul diwetha’, a’r diwrnod canlynol roedd e’n Ddiwrnod Cenedlaethol Iechyd Meddwl, pwnc sy’n gyson yn y newyddion y dyddie hyn, a da o beth yw hynny, fel ein bod ni fel cymdeithas yn gallu rhoi sylw teilwng i’w effeithiau. Mae’n gallu effeithio unrhyw un, o enwogion fel J K Rowling, Katy Perry, Lady Gaga, Buzz Aldrin, Bruce Springsteen a Gwyneth Paltrow, i bobl gyffredin - mynychwyr Capel fel ni. Mae’n debyg bod 1 o bob 6 pherson yn profi ryw fath o broblem iechyd meddwl, ond ma’ 2 o bob 6 yn ei guddio, heb eisiau siarad amdano. *Mae siarad amdano’n bwysig*, yn holl bwysig, er mwyn rhannu’r baich. Yn ôl sawl adroddiad seiciatryddol mae’n debyg bod mynychu Capel neu Synagog neu Fosg yn gymorth, oherwydd yr elfen o ffydd, a hefyd yr elfen o gymdeithas, cymdeithas sy’n fodlon gwrando, a chynorthwyo. Sdim sôn am iechyd meddwl fel y cyfryw yn y Beibl, ond ma’ sôn bod yr Iesu’n iachau’n wyrthiol. Does gyda ni ddim ei ddonie gwyrthiol ef, ond fe allwn ni drwy ras ddangos dealltwriaeth, cydymdeimlad, cefnogaeth a chariad. Ydyn, ma’r dail yn syrthio, ond ma’ nhw’n dal yn brydferth ar ôl iddyn nhw syrthio, ac fe ddaw Gwanwyn, er falle ar hyn o bryd mae’n teimlo’n bell i ffwrdd.

Delwyn



Y BRIODAS GYNTAF WEDI'R CLO

Addas iawn mai un a faged ym Methlehem oedd y cyntaf i briodi yma wedi i’r cyfyngiadau COVID gael ei llacio. Dyma Huw Alun Evans, (Yr Eglwys Newydd) a’i briod Sioned ar yr achlysur hapus. Dywed Huw: "Dw i a Sioned am achub ar y cyfle i ddiolch i bobl Bethlehem am adael inni gynnal ein gwasanaeth priodas yn y capel. Diolch yn arbennig i Rhodri am y cyfarwyddyd iechyd a diogelwch, ac i Delwyn a Heulwen, wrth gwrs, am gynnal y gwasanaeth a’r trefniadau cofrestru. Cawsom ddiwrnod hyfryd dros ben.

Colli Menna Bassett



Yn wythnos gyntaf mis Hydref, daeth y newydd am farwolaeth un o'n haelodau, Menna Bassett, Pentyrch. Roedd Menna wedi bod yn ymladd ei hafiechyd yn ddewr a distaw ers peth amser, ac yr oedd yn hynod o falch o fod wedi cael cwmni'r tair merch, Sian, Sara (sy'n byw yn Ffrainc), a Lynne (sy'n byw yn Awstralia) yn ystod ei hwythnosau olaf.

Roedd i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, le arbennig iawn yn ei chalon, ac yn ein tro 'roeddem ninnau'n falch o'i chwmi a'i sgwrs yn ein plith bob amser. (*Fel y gwelwch o'r llun, fe'i derbyniwyd yn aelod gyda ni, a hynny gan R Alun, ym mis Chwefror, 2012.*)

Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at y teulu cyfan yn eu galar a'u hiraeth. Mae Sara, Sian a Lynne yn awyddus i'w chyd-aelodau weld y neges isod:

Annwyl Ffrindiau

Bydd angladd Menna Bassett yn cael ei gynnal yng Nghapel y

Wenallt, Amlogsgfa Draenen Pen-y-graig (Thornhill), ar bnawn Iau yr 28ain o Hydref, am 2:00 p.m.

[Nid oes cyfyngiadau mwyach ar y niferoedd â all fod yn bresennol mewn angladd a gynhelir yno.]

Wedi'r gwasanaeth, bydd cyfle i ymuno a'r teulu yn y Manor Parc Hotel. (Byddent yn gwerthfawrogi gwybod hynny ymlaen llaw er hwyluso'r trefniant yno – cysyllter â lynnehutton@gmail.com i roi gwybod.)

Yn ystod ei gwaeledd, hyd at y diwedd eithaf, bu gweithlu'r City Hospice yn hynod o ofalus o Menna, a'i dymuniad fyddai i unrhyw gyfraniad er coffadwriaeth amdani gael ei gyfeirio atynt, a hynny er bod o gymorth i eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.

Gellir gwneud hynny trwy'r cyswllt hwn:- <https://www.cityhospice.org.uk/get-involved/donate>

O'r Cwrdd Diaconiaid

Yr Ysgrifennydd

Diogelwch a threfn yr Oedfaon, Cyfraniadau i'n Helusennau

Cyfarfu'r Diaconiaid, wyneb-yn-wyneb am y tro cyntaf ers mis Chwefror 2020, ar nos Lun yr 11eg o Hydref 2021. Cyfarfodydd "ar Zoom" a gynhaliwyd yn y cyfamser, a braf o beth oed cael bod yng nghwmni'n gilydd yn y Ffestri unwaith yn rhagor. Prif amcan y cyfarfod oedd cael adolygiad o'r hyn a ddarparwyd wedi ail-agor y capel ar gyfer cynnal oedfaon ym mis Gorffennaf eleni, a thrafod y camau nesaf y dylid eu cymryd er hwyluso hynny yn y dyfodol.

Cam-wrth-gam ydi'r drefn wedi bod, ac fe nodwch eisoes ein bod wedi bod yn defnyddio bob-yn-ail sedd yn llawr y capel ers sawl Sul bellach. Mae hynny yn ei dro yn ein galluogi i leoli rhwng 40 a 50 o'r mynychwyr o fewn clyw a golwg glir, heb ddefnyddio'r llawr uchaf. Ac wrth reswm mae wedi bod yn galonogol ryfeddol i weld niferoedd hyd at hynny yn mynychu yn gyson o Sul i Sul.

Byddwn yn gweinyddu'r cymun ar Sul yr 17eg o Hydref, a hynny gan ddilyn patrwm mis Medi o ddarparu'r bara a'r gwin i chwi ei gyrchu ar y ffordd i mewn i'r oedfa – felly dim angen dod a'r elfennau gyda chwi o hyn allan!

Mae'r gorchudd wyneb yn orfodol mewn oedfa wrth gwrs, ond 'rydym mwyach yn ymdopi yn eithriadol o dda gyda'r canu a'r cyd-ddarllen, gyda'r deunydd ar gyfer y naill a'r llall yn cael ei dafluio ar y mur tu ôl i'r pulpud. Am y tro, ni fyddwn felly yn dosbarthu'r beiblau a'r llyfrau emynau at eich defnydd, er bod croeso i chwi ddod a'ch deunydd darllen/canu eich hunain gyda chwi.

Byddwn yn parhau i gyflwyno'r oedfaon o'r Set Fawr, gan bod hynny yn gyfleus o ran recordio'r gwasanaethau. A byddwn yn rhannu'r oedfaon a recordir trwy'r gwefannau cymdeithasol â'r aelodaeth, ac unrhyw un arall fydd a diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth. [Mae'r ffigyrau gwylio wedi bod yn gyson dros 60 o ymweliadau o Sul i Sul.]

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Byddwn yn ogystal yn parhau â'r drefn o geisio cael gwybod ymlaen llaw am eich bwriad i ddod i'r oedfa – mae hynny yn ffordd o gadw cofnod presenoldeb (am dymor byr) petai'r haint yn ymweld a'r fangre. Er mawr siom i bawb ni fyddwn yn darparu paned o de wedi'r oedfa tan i ni adolygu'r sefyllfa ym mis Tachwedd.

Ac er bod na hiraeth am gael cwmni'r plant a'u rhieni yn yr oedfaon, gwerthfawrogwn eu parodrwydd, dan ysgogiad Heulwen Jones, i gynnal yr Ysgol Sul yn rhithiol. Serch hynny, gyda chydysniad yr athrawon, y rhieni a'r plant, gobeithir eu croesawu'n 'nol rhywbryd cyn y Nadolig, ac awgrymwyd y gellid gwneud hynny trwy gynnal yr Ysgol Sul yn y Festri, tra bod yr oedfa ymlaen, heb, am y tro, i'r ddwy gynulleidfa gymysgu.

Â'r hin a'r newid gyda dyfodiad tymor yr Hydref, a'r gofyn i gynhesu'r adeilad, byddwn yn ail-asesu'r priodoledd o adael y drysau ar agor yn ystod yr oedfa. A gan i mi eisoes sôn am y Nadolig (dim ond 75 diwrnod o ddyddiad y Cwrdd Diaconiaid hwn!), 'rydym wedi penderfynu, a hynny am resymau amlwg, na fyddwn yn ymweld ag unrhyw Gartref Gofal i gynnal oedfa ym mis Rhagfyr, na chwaith yn cynnal oedfa ar Sul y 26ain o Ragfyr.

Gobeithiwn, serch hynny y bydd modd cynnal "**Naw Llith a Charol**", cyflwyniad **Nadolig yr Ysgol Sul**, ac, yn ôl yr arfer yr **oedfa ar fore'r Nadolig** (dydd Sadwrn). Ac i ddilyn yn y flwyddyn newydd, bydd **Oedfa Blygain**.

Noder y bydd rhai o'r oedfaon ym mis Rhagfyr yn cael eu cynnal gyda'r hwyr. Gweler y tudalen gefn. (*tud 10*)

Beth arall a drafodwyd tybed?

- Bydd y **Gweithgor Addoli** yn cwrdd ym mis Tachwedd i gymryd gor-olwg ar drefniadau addoli yn 2022 a thu hwnt, a bydd gwahoddiad agored i bawb i awgrymu themâu a chynnwys yr hyn a gyflwynir o Sul i Sul.
- Bydd "**Drws Agored**" yn ail-afael o fis Ionawr 2022 ymlaen, dan arweiniad ein cyn-weinidog, y Parchedig Ddr R Alun Evans, (bydd cyfle i ystyried a'i gyda'r nos neu'n ystod y dydd yw'r amser delfrydol i gynnal y gweithgaredd.)
- Bydd Bethlehem yn gyfrifol am drefnu un cyfarfod dan nawdd **Cylch (Llenyddol) Cadwgan** o gwmpas cyfnod y Pasg 2022.
- Bydd cyfle i ymuno mewn cyflwyniad o "Teilwng yw'r Oen", dan arweiniad a hyfforddiant Eilir Owen Griffiths, i'w berfformio yn y capel yng nghyfnod y Pasg 2022.
- Erbyn Mawrth 2022, rhoddir ystyriaeth i geisio nawdd / grant o gronfeydd gwahanol] (e.e. Undeb yr Annibynwyr Cymraeg / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen) er sicrhau ansawdd teilwng i sain a llun, ac unrhyw ddeunydd perthnasol at ddefnydd y capel a'r Ysgol Sul.
- Yn dilyn ad-daliad oddi wrth Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, bydd cyfraniadau gwerth £1000 yr un yn cael eu cyflwyno i'r elusennau canlynol:-

- **Canolfan y Drindod, Caerdydd** (ein dewis elusen)

- **Banc Bwyd Caerdydd** (ein helusen barhaol)

Ac ar gais y Cwrdd Merched,

- **Urdd Gobaith Cymru** (er budd lletya ffoaduriaid o Affganistan).

Eisoes fe gyflwynwyd dau swm i Gymorth Cristnogol, sef **£1000 i Gronfa Daeargryn Haiti**, a **£500 i'w Cronfa Gyffredinol** fel mudiad – yr ail yn gydnabyddiaeth na fu casgliad arbennig yn y capel yn ystod eu hymgyrch flynyddol ym mis Mai.

- Cefnogwyd cri'r Organyddion am ganiatâd i ehangu cylch y rhai sydd yn gofalu am y cyfeilio mewn oedfaon o Sul i Sul, a gwahoddir unrhyw un sydd a diddordeb i fod yn rhan o'r tîm, ar yr organ neu'r piano, i gysylltu a Delyth Evans neu Rhian Huws cyn gynted ag y bo modd.
- Trafodwyd cais **Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth** i gael defnydd o'r Festri ar gyfer cynnal Cylch Meithrin. Cyfarfu'r Arweinydd a swyddogion â phennaeth yr ysgol, a bu'r Ysgrifennydd yn cwrdd a'r Mudiad Meithrin i drafod y gofynion. Ar hyn o bryd, ymddengys nad oes modd cydymffurfio a'r cais i letya'r Cylch yn yr adeilad, a gwahoddwyd y pennaeth i ystyried a oes defnydd amgen y gellid ei wneud o'r Festri, a hynny yn ei dro yn rhyddhau gofod o fewn yr Ysgol er hwyluso'r gorchwyl meithrin.

Rhodri-Gwynn Jones (ysg)

Newyddion o blith yr aelodau...

- ❖ Croeso mawr i Ynyr Llywelyn Jones – babi newydd Gwern a Lowri ac ŵyr bach i Angharad ac Alwyn Harding Jones, Ffynnon Taf
- ❖ Rydyn ni'n cydymdeimlo ag Esme ac Iwan Griffiths, a'r teulu, Creigiau. Bu farw mam Esme ar ddiwedd Medi.
- ❖ Anfonwn ein cofion at Ann Jones, Pentyrch, sydd newydd gael llawdriniaeth a dymunwn adferiad buan iddi ar ôl cael clun newydd.

Dydd Sul 19 Medi

Roedd yn hyfryd croesawi'r plant nôl i'r Ysgol Sul heddi. Roeddwn wedi gobeithio y bydde hi wedi bod yn bosib dychwelyd i'r Ffestri bore 'ma ond, ar ôl siarad gyda rhai o rieni a swyddogion Bethlehem, penderfynwyd taw y peth gore am y tro oedd cario mlân i gwrdd ar Zoom, ail edrych ar y sefyllfa yn gyson ac anelu i ddychwelyd ar ôl hanner tymor yr Hydref.

Gwenan oedd yr arweinydd bore ma ac fe atgoffodd y plant o'r sefyllfa yn Afghanistan ar hyn o bryd lle mae merched yn cael eu gwahardd rhag mynd i'r ysgol. Soniodd am ddwy ferch sydd wedi bod yn ddylanwadol o ran addysg i ferched.



Mae Malala Yousafzai o ogledd Pacistan wedi bod yn ymgyrchydd ers yn ifanc iawn dros addysg i ferched. Pan oedd hi'n 15 oed, oherwydd ei bod yn ymgyrchu dros hawliau i ferched, cafodd ei saethu gan y Taliban. Diolch i Dduw fe wnaeth ddod dros yr anaf, ac aeth ymlaen i gwblhau ei haddysg yn Lloegr ac fe dderbyniodd Wobr Heddwch Nobel yn 17 oed.

Dyma rai o ddyfyniadau enwog Malala:

- "Os na all un ferch ag addysg newid y byd, jyst dychmygwch beth all 130 miliwn ei wneud!"
- "Gadewch i ni godi ein llyfrau a'n pensiliau. Nhw yw ein harfau mwya' pwerus"
- "Dw i ddim ishe dial ar y Taliban. dwi am i feibion a merched y Taliban gael addysg"
- "Dw i'n eitha sicr mai fi yw enillydd cynta' y wobr Nobel sydd yn dal i gweryla â'i brodyr bach. Dw i am weld heddwch yn y byd, ond dw i a'm brodyr yn dal i weithio ar hynny!"



Yna soniodd Gwenan am hanes Betty Campbell o Drebiwt, Caerdydd, aeth ymlaen i fod yn athrawes a Phrifathrawes ddu cyntaf yng Nghymru. Mynnodd dderbyn addysg gan frwydro yn erbyn y rhwystrau ar y pryd ei bod yn ferch, yn ddu ac yn dod i un o ardaloedd tlotaf Cymru. Brwydrodd dros gydraddoldeb drwy ei hoes.

Darllenodd Awen weddi fach i orffen yn diolch i Dduw ein bod yn byw mewn gwlad lle mae gennym ni hawl i gael addysg.

Dydd Sul 26 Medi

Criw bach ddaeth i'r Ysgol Sul y bore ma ond roedd cyfraniad bob un yn werthfawr iawn. A dyma nhw:



A hithe'n dymor Diolchgarwch fe wnaeth y plant wrando ar un o ddamhegion yr Iesu sef Dameg yr Heuwr. Edrychwn 'mlan at wyllo Gwasanaeth Diolchgarwch y plant wythnos nesa.




Dydd Sul 10 Hydref

Rachel oedd yr arweinydd yn yr Ysgol Sul bore 'ma. Gofynnodd i'r plant pa un oedd ei hoff lyfr. Roedd pawb wrth eu bodd yn darllen llyfrau ac yr oedd yr atebion yn amrywiol iawn. Dywedodd ei bod am sôn am lyfr arbennig iawn sef y Beibl. Cyflwynodd ddau gwis yn ymwneud a chymeriadau'r Beibl. Gofynnodd yn gyntaf faint o'r enwau yma sydd yn y Beibl. Ac yna cawsom gwis arall ynglŷn â gwaith rhai o'r bobl yn y Beibl. Atgoffodd Rachel y plant pa mor bwysig yw hi i ddarllen y Beibl gan bod rhywbeth newydd i ddysgu yno drwy'r amser.

Elias	Abigail	Carys	Phoebe	Mair
William	Sara	Nia	Hanna	Daniel
Josua	Helen	Steffan	Paul	Lois
Dylan	Dafydd	Reuben	Gareth	Lydia

Y CWRDD DIOLCHGARWCH AR-LEIN

Diolch i'r rhai fu'n ein harwain. Roedd y cyfan o'r Cyfranwyr isod o'r Ysgol Sul



Ymunwch â ni yn yr Ysgol Sul

Cofiwch bod croeso i unrhyw un alw i mewn i'n gweld ni yn yr Ysgol Sul am 10.30. Mae'r manylion cysylltu yr un fath bob tro:

<https://us04web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09>

ID: 714 6634 3537 Cyfrinair: Bethlehem

Ond rhowch wybod i Heulwen am eich bwriad i ymuno:

heulwen@btinternet.com 07779 360614

Oes yna ddarpar gyfeilydd yn eich plith?

Dyma'ch cyfle i gymell cyd-aelod, boed ifanc neu aeddfetach, i gynnig helpu. Mae Bethlehem eich angen!

Gweler sylwadau Rhodri (ar dudalen 3l) – cysylltwch ag un o'r cyfeilyddion a chynnig enw!

Hanesion o Affganistan

Un arwydd bod bywyd yn dechre mynd nôl i normal yn y capel oedd bod y merched wedi gallu cwrdd yn y festri eto ar Hydref yr ail, am y tro cynta ers dros 18 mis. Er pa mor llwyddiannus oedd y cyfarfodydd Zoom, roedd hi mor braf cael cwrdd â'n gilydd a chael sgwrs wyneb yn wyneb unwaith eto.

Wrth ddechre'r cyfarfod, cyfeiriodd Eirlys at y tristwch ein bod wedi colli pedair o'n plith yn ystod y cyfnod anodd diweddar a'r rheiny'n ffrindie agos i ni i gyd yn nheulu Bethlehem - Marian Jones, Elen Lewis, Cath Edwards ac yn ddiweddar iawn, Menna Bassett. Fe fyddwn ni'n gweld eisie'u cwmniaeth a'u cyfraniad yn fawr.

Ry'n ni mor ffodus yn y capel i gael aelode s'y wastad mor barod i rannu eu profiade gyda ni ac yn y cyfarfod yma Eifion Glyn fuodd gyda ni yn siarad am ei ymweliade ag Affganistan dros y blynyddoedd yn rhinwedd ei swydd fel newyddiadurwr a gohebydd i raglen 'Y Byd ar Bedwar'. Dwedodd ei fod yn teimlo'n ffodus iawn ei fod wedi cael y cyfle yn ystod ei yrfa i ymweld â'r wlad, ceisio deall hanes y sefyllfa wleidyddol a dod i nabod rhai o'r bobol. Cyfeiriodd yn benodol at ei ffrind Nazir, sy bellach yn byw yn Llundain, fuodd yn gymorth mawr iddo wrth drefnu cyfweiliade a chyfieithu sgysie. Cawsom dipyn o hanes cymhleth ond hynod ddiddorol Affganistan, y cysylltiad â'r gwledydd sy'n ffinio â'r wlad - Iran, Rwsia, Pacistan ac eraill a hanes taleithie'r wlad a'r probleme enfawr ynghlwm â'r rheiny. Mae'r llunie erchyll ry'n ni wedi arfer eu gweld ar ein setie teledu o'r holl bobol sy'n ceisio dianc o'u gwlad y dyddie 'ma yn dangos i ni pa mor beryglus a bregus yw bywyd yn Affganistan ac mae nifer y meirw dros y blynyddoedd, yn frodorion ac yn filwyr, yn brawf o hynny. Erbyn hyn, y Taliban sy' nawr yn rheoli'r wlad ac er na allwn ni ddeall y sefyllfa bresennol, na rhagweld beth fydd y dyfodol, y gobaith yw y bydd pobol Affganistan, ac yn enwedig merched Affganistan, yn gallu symud ymlaen i fyw bywyd gwell yn y pen draw.



Ond... a fydd hynny fyth yn bosib? Dyw'r newyddion glywn ni ddim yn awgrymu hynny yn anffodus - mae dyfodol y wlad yn ymddangos yn ansicr iawn ar hyn o bryd.

Mae'n rhyfedd dweud ein bod wedi gallu mwynhau gwrando ar sgwrs oedd yn seiliedig ar anghyfiawnder, anobaith a thristwch ond fe wnaethon ni..... a diolch yn fawr iawn i Eifion am geisio'n haddysgu am natur



hanes a phrobleme'r wlad mewn ffordd mor ddiddorol a heb nodyn o'i flaen! Er ei fod wedi ymddeol erbyn hyn, mae Affganistan yn un o'r gwledydd sy' wedi creu argraff enfawr arno, mae'r profiade gafodd yno yn fyw yn y cof a bydd y chwilfrydedd yng ngorffennol a dyfodol y bobol fyth yn ei adael!

Diolch Eifion!





Rai dyddiau n'ôl roeddwn i'n yr ardd un pawns yn hel fale ola'r haf. Tra'r oedd y fale yn gochion, aeddfed, iach fe godwyd cywilydd mawr arna i wrth eu rhoi heibio am y gaeaf. A dyma pam.

Cofio wnes i am bawns tebyg yn Llanbrynmair fy machgendod. Nid hel fale oeddwn i'r pawns hwnnw ond eu dygid. Dyna'n gair ni am 'ddwyn.' Dygid, twgyd, dwyn, cymryd, lladrata, sgwlca, sgwlcan ... Pa air bynnag, nid yn gymaint y 'dygid' ond cael fy nal yn dygid fale. A hynny gan hen wraig. Dyma sut bu hi.

Roedd unrhyw un dros ddeugain oed yn ymddangos yn hen i ni blant. Doedd Mrs Griffiths, Dôl'ronnen, ddim mor hen â hynny mae'n siŵr. Mhen blynyddoedd diweddarach ei hymffrost oedd, nid ei bod hi wedi dal mab y Gweinidog yn dygid fale o'i pherllan, ond ei bod hi'n Nain i Dafydd Iwan ac i weddill bechgyn Sis, ei merch.

Un arw am y geiniog oedd Mrs Griffiths; am y ddimau hyd yn oed. Fe fyddai'n codi dime ar blant y pentre am un afal. Yn y cyfnod hwnnw roedd dimau yn arian mawr, a cheiniog yn ffortiwn.

Roedd tyddyn Dôl'ronnen ar lan afon laen. Ac roedd perllan Dôl'ronnen yr ochor arall i'r afon. Felly, byddai'n rhaid i Mrs Griffiths gerdded lled un cae at bont Tŷ-mawr; croesi'r afon, a cherdded yn ôl led cae arall i gyrraedd y berllan. Deillia'r enw 'laen' o'r cyfnod pan oedd ia [rhew] yn drwch ar yr ardal. Ganrifoedd yn ddiweddarach, wrth i'r rhew doddi fe ffurfiwyd y tirwedd. Byddai'r laen, y Clegyr (a lifai o Gwm Tafolog) a'r Twymyn (a lifai o'r Ffrwd Fawr ger Dylife) yn uno yn un afon yng nghwmwd Tafolwern ac yn llifo ymlaen am Glan-twymyn gan ymuno â'r Ddyfi.

Ond i fy ffrind Dic Tŷ Capel a minnau, manion dibwys oedd pethau felly. Yr antur fawr oedd croesi'r afon, gyferbyn â'r ysgol, rhyw ganllath cyn cyrraedd Dôl'ronnen. Dyna lle'r oedd y berllan.

Dic oedd y gorau am ddal pêl (ac afal). Felly, y fi gafodd y dasg o ddringo i'r canghennau a thafu'r fale cochion i Dic i'w dal. "Barod?" Tafu, a Dic yn dal. Ond y ni gafodd ein dal y pawns heulog hwnnw. Wrth edrych i lawr o'r canghennau fe welwn i bâr o sgidie, Nid sgidie Dic oedde nhw. Sgidie dynes oedd yno. Ac o godi ngolygon rhyw fymryn fe ddaeth 'na frat i'r golwg. A bwced. Mrs Griffiths oedd yno. A deuthum i lawr o'r goeden yn llawn cywilydd. Nid yn unig yr oeddwn i wedi bod yn dygid fale, ond wedi cael fy nal yn dygid fale.

"Gan eich bod chi'ch dau yn leicio fale cymaint," medde Mrs Griffiths, "fe gewch chi lenwi'r bwced 'ma i mi a'i gario yn ôl i Ddôl'ronnen."

Gafaelai Dic yn nolen y bwced efo'i law chwith; minnau efo'm llaw dde. Roedd hynny'n gadael un fraich yn rhydd. Cerddem gam y tu ôl i Mrs Griffiths ar hyd y ddau gae, gan ymestyn efo'r fraich a'r llaw rydd, tu ôl i'n cefnau, i godi fale o'r bwced a llenwi'n pocedi. Wedi cyrraedd y tyddyn, a rhyw wên hunan-fodlon ar ein hwynebau ein bod ni wedi bod mor glyfar, meddai Mrs Griffiths "fe gewch chi lenwi'ch pocedi nŵan."

O! Y fath gywilydd. Ac mae hwnnw'n para hyd heddiw.

DEGFED SUL ADFERIAD CYMRU

Wynford Ellis Owen

Bydd dydd Sul 31ain o Hydref, 2021, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysi nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis Adferiad, y Stafell Fyw, Inroads a chyflenwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle i weithredu yn ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra y bydd eraill yn cymryd sylw newydd o'r anogaeth sydd yn Hebreaid 13, 3 "Daliwch ati i gofio'r rheiny sy'n y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!" Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebreaid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar ddameg y Mab Afradlon - dameg sy'n ein hatgoffa o dri cham sydd, o'u cymryd, yn ein rhyddhau i dderbyn cyfle newydd, a thrwy hynny fywyd newydd: Cydnabod, Codi, a Chyfrannu.

'Pa beth bynnag a ddug ein hunanbarch, ein bywyd oddi arnom, beth bynnag yw mwgwd ein parchusrwydd, neu ein dibyniaeth, pan ddisgyn y rheini a'n bywyd yn noeth a'r diddymdra yn cau amdanom, teimlwn ei Gariad yn ein croesawu, ein cynhesu, a'n hadfer.'

"Yn eno'r Tad, roeddwn i'n ficer! Trist dweud, roeddwn i'n ficer oedd wedi treulio 18 mlynedd yn credu bod Duw am i mi weithio 70 neu 80 awr yr wythnos.

Gam wrth gam, o ddydd i ddydd, fe wnes i ddychwelyd at gragen fy mywyd oedd wedi ei chwalu'n llwyr, ac yna yn araf ei gweld yn cael ei rhoi yn ôl at ei gilydd fel porslen brau."

Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar BBC Radio Cymru ar fore Sul 31ain o Hydref - a bydd croeso i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn eich eglwysi. Bydd ar gael i'w lawr lwytho ar ein gwefan: www.cynnal.wales yn fuan.

Yn ogystal, rydym wedi comisiynu emyn newydd, **'Gweddi Adferiad'**, yn arbennig ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r geiriau (isod) gan Siôn Aled, a'r dôn gan Sioned Webb, a bydd yn cael ei ganu gan Begw Rowlands a chôr bychan o aelodau eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

Galw wnaethom o'n caethiwed
am dy nerth i dorri'n rhydd,
am d'oleuni yn ein t'wyllwch,
am drawsnewid nos yn ddydd:
ac atebaist uwch na'n gobaith
a thu hwnt i'n tipyn ffydd.

Ti a wyddost rym dioddef,
plymiaist tithau'r gwaelod du,
dysgaist mai cydnabod gwendid
ydyw dechrau'r dringo fry:
ond dy nerth ar lethr adferiad
wna'r rhai gwantan hyn yn gry'.

Rho in weld drwy lygaid gobaith,
gweld ym mhawb sydd ar y llawr
rai gall gras eu harwain hefyd
drwy eu nos at doriad gwawr:
i gyd-ddathlu gyda ninnau'n
gwendid yn gadernid mawr.

Siôn Aled

Dyma ddegfed Sul Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynnol; gan ofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw. Diolch rhag-blaen am bob cydweithrediad a chefnogaeth.



Wynford Ellis Owen, Ymgynghorydd Cwmsela Arbenigol
CYNNAL – y gwasanaeth cwmsela i glerigion, gweinidogion yr
efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd,
96-98 Neville Street, Glan-yr-Afon, Caerdydd CF11 6LS
E-bost: wynfordellisowen@adferiad.org.uk
Ffôn: 07796464045 neu 029 2040 7407



'STAFELL FYW CAERDYDD
YN AGOR Y DRWS I FYWYD NEWYDD
LIVING ROOM CARDIFF
OPENING THE DOOR TO A NEW LIFE

ODLAU'R GARTH

Llongyfarchiadau i Martin Huws, Ffynnon Taf ar ennill cadair Eisteddfod Y Rhondda – am yr eildro'n olynol. Dyma'r gerdd fuddugol a gair byr o gyflwyniad gan Martin, â'r llun a'i hysgogodd.



"Gweld y llun uchod o'dd y man cychwyn." (*Martin*)

YFORY

Poperinghee, 1917

Y wal, hi a welaf,
nhw fydd yn gwylio targed â llyged llaith.

Ddim yn angof 'yn atgofion:
dyddie diniwed, sialc yn wiced ar wal.
Yn ben ar deyrnas y bêl,
ei gyrru'n glatsh at y gorwel,
yn union fel ergydion y gad.
Crwt anghyflawn, 'y myd yn llawn, yn llon.

'Wy'n aros iddi nosi.

Dilêit y cadfridog yw dileu,
cilwenu cyn malu gobeithion milwr
fel damshil ar whilen.
Ei lofnod heb wewyr yn fyr:
saethu'n farw.

Sŵn pêl fel angerdd sy'n pylu.

Dros y Sianel y des i faeddu'r gelyn.
Bydd gwawr ar led cyn ergydion bwledi
ac ataf fi anela, tania 'y mhlâtwn.

Loetran ma' cysgodion amdanaf,
y nos yn cripad yn iasol.

Y wal, hi a welaf:
wal ddi-liw 'y niwedd.
Yn anochel, nychaf.

Martin Huws

Beth am gyfrannu i'n rhifyn nesaf?

Ymhen mis bydd hynny.

Deunydd erbyn Tachwedd 17.

Anfonwch air at Ifan Roberts

tycnau@aol.com

07761826977

Yn ystod "Y Clo", geson ni ddicon o amser i itrech ar natur. Hales i dipyn o amser yn gwyllo'r Pili Pala—"y bow tei ar wddf yr awel", sy'n mynd trwy tri newidiad yn ystod ei fywyd byr. Wel, ryw naw mlynedd yn ôl, fe geso i ryw "fetamorffosis" ---mynd i'r gwely un nosweth yn berson weddol normal, a dihuono lan yr ail fore fel bardd!!!!—a na, 'dy ni ddim cweit yn bobol normal. Os welwch chi rhywun m'wn caffi ne' dafarn yn ishte fanna yn cownto ar ei fysedd - bardd sy' na garantid!! Cownto sillafe mae e, saith ar gyfer englyn, yr un peth i gywydd, a lan i ddeg i hir a thoddaid. 'Na pham geso ni ddeg bys siwr o fod, falle o'dd duw yn cyganeddu!! Diolch bod dim mesur sy' ishe mwy na deg sill!!!!



Fe ddechries i farddoni drwy gystadlu yn yr eisteddfote diri 'ma sy'n ffenomenon flynyddol yn ein gwlad fach ni. Erbyn hyn ma 'da fi un-ar-ucen o gadeire - (bach) am gerddi wedi'u hennill rhwng 2011 a 2019, a saith o'r rheiny yn 2015, nes bod y cylchgrawn "Steddfota" n roi'r pennawd, "O Gadair I Gadair"!!!!!!!

Ma' un ne' ddou steddfod yn roi cater FAWR, dw i ddim 'di llwyddo ca'l un o'r rheiny eto, ond dw i wedi meddwl whileo saer i fwro rhain i gyd miwn i un i fi ga'l y nymuniad!!!!

Wel, yn ystod Y Clo, dyma benderfynnu yn gynta' troi'r cerddi miwn i lyfr, yn lle eu bod nhw'n ishte yn y drar, ac yn ail, bod yr elw yn mynd at Cymorth Cristnogol gan fod y mudiad yn dathlu 75 mlynedd o fodolaeth eleni. Dyma un o fendithion y cyfnod rhyfedd yma, ei fod wedi esgor ar gymaint o waith creadigol ar hyd a lled y byd.

Creu'r llyfr 'ma yw'r peth agosa' alla i feddwl at eni plentyn! Cymerodd naw mis i'w glasgu at ei giddil, yna, ma' ffrwyth, wel yn rhannol, naw mlynedd o waith yndo fe.

Yn ystod Steddfod yr Urdd eleni, fe wetws y Prif Lenor ei bod hi'n hyfforddi i fod yn fydwraig, a hynny'n dod â'r ddou beth yn deidi at ei gilydd, ma' hi'n gweld mamau'n esgor ar fabis, a hithe'n esgor ar lenyddiaeth.

Enw fy nghyfrwl i yw "Cerddi'r Cadeire Bach", sef yr adran gynta. Ffrwyth cystadleuthe Cymdeithas Eisteddfode Cymru yw y rheiny. Nawr ma' pryddeste cadeiriol diri y Genedlaethol wedi ymddangos mewn llyfre, ife dyma'r tro cynta i gerddi cadeiriol yr eistrddfote bach ga'l eu casglu mewn llyfr 'sgwn i? Ma 'na chwech adran arall, a llawer o'r rhain wedi bod yn fuddugol hefyd:- Telynegion, Sonedau, Englynion, I Ffrindie, Cerddi'r Clo ac adran Y Nadolig. Daw o wasg Carreg Gwalch yn yr Hydref. Bydd ar ga'l yn ambell siop Gymra'g sy'n ddicon caretig i'w arddangos i fi. Os am archebu pan ddaw, yr e-Bost yw:- tanymarian2@btinternet.com . Presant 'Dolig ?

Suliau Bethlehem hyd y Nadolig

Hydref

- 3 - Diolchgarwch (yng ngofal Heulwen)
- 10 - Parchg Gethin Rhys
- 17 - Parchg R. Alun Evans
- 24 - Parchg Ganon Aled Edwards
- 31 - Wynford Ellis Owen (Sul Adferiad)

Tachwedd

- 7 - Delwyn Sion
- 14 - Sian Meinir
- 21 - Sul yr Urdd (Ieuencid)
- 28 - Parchg Lona Roberts

Rhagfyr

- 5 - Delwyn Sion (5pm)
- 12 - Naw Llith a Charol (5pm)
- 19 - Pasant Nadolig
- 25 - Gwasanaeth Dydd Nadolig (10.00)
- 26 - Dim Gwasanaeth

Mae ein diolch i Delyth Evans, Y Barri, am ofalu am lanw'r Suliau. (Mae hi'n gobeithio bydd rhywun o'n plith yn etifeddu'r cyfrifoldeb yn fuan. Felly, os hoffech gynnig eich hunan, cysylltwch â Delyth, Rhodri neu unrhyw un o'r diaconiaid. Mae Delyth wedi llanw rhai Suliau am y flwyddyn nesaf yn barod!)